**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**PANEL GWEITHREDOL**
**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**17eg Medi 2012**

**MONITRO PERFFORMIAD**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

**1** Darparu gwybodaeth i'r Aelodau ynghylch gweithgarwch Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a monitro perfformiad yn erbyn yr amcanion gwella.

## Gwybodaeth

**2** Er gwybodaeth i'r aelodau, yn Atodiad 1 mae'r adroddiad monitro sy'n ymwneud â chwarter cyntaf blwyddyn adrodd 2012/13, ac sy'n ymdrin â'r cyfnod rhwng $1^{af}$ Ebrill 2012 a $30^{ain}$ Mehefin 2012.

**3** Hefyd wedi ei atodi yn Atodiad 2 er gwybodaeth i'r aelodau presennol, ac er mwyn bod yn gyflawn, mae'r adroddiad monitro sy'n ymwneud â blwyddyn adrodd lawn 2011/12, ac sy'n ymdrin â'r cyfnod rhwng $1^{af}$ Ebrill 2011 a $31^{ain}$ Mawrth 2012.

## Argymhelliad

**4** Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

## CHWARTER CYNTAF

## EBRILL 2012 – MEHEFIN 2012

**Ffigyrau dros dro a ddarperir, ac efallai y bydd mân newidiadau iddynt**

.

**CYNNWYS**


| | | |
|---|---|---|
| | **MONITRO GAN GYMHARU AG AMCAN GWELLA 1** | **2 - 6** |
| | | |
| | Tanau damweiniol mewn cartrefi | |
| | Anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi | |
| | Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | |
| RRC/C/005 | Presenoldeb/absenoldeb larwm mwg mewn tanau mewn cartrefi | |
| | Pobl yn dianc yn ddianaf a heb gymorth o danau damweiniol mewn cartrefi | |
| | Archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gynhaliwyd yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad partner | |
| | | |
| | **ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU** | **7 - 13** |
| | | |
| | **CRYNODEB** | **7** |
| | Trosolwg o'r digwyddiadau yr aethpwyd atynt | |
| | | |
| | **TANAU YR AETHPWYD ATYNT** | **9 - 12** |
| RRC/S/001 | Yr holl danau – prif, eilaidd a simnai | |
| | Yr holl danau – bwriadol a damweiniol | |
| RRC/S/003 | Tanau mewn eiddo annomestig | |
| | | |
| | **GALWADAU AM WASANAETHAU ARBENNIG** | **13** |
| | Galwadau brys am wasanaethau arbennig | |
| | | |
| | **GALWADAU DIANGEN** | **15 - 16** |
| RRC/C/002 | Galwadau diangen maleisus | |
| RRC/C/003 | Galwadau diangen oherwydd systemau awtomatig | |
| | Galwadau diangen didwyll | |
| | | |
| | **GEIRFA** | **17** |

## AMCAN GWELLA 1:

## Atal Marwolaethau ac Anafiadau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

| **BLWYDDYN ADRODD – 2012/13** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **HYHE- Hyd yn hyn eleni** | | | | | | |
| Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.<br>Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid | | | | | | |
| ↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid PC = pwyntiau canrannol | | | | | | |
| | **CH1** | **CH2** | **CH3** | **CH4** | **HYHE** | |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 97 | | | | 97 | ↓13% |
| Anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi | 7 | | | | 7 | ↓ 1 |
| Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 1 | | | | 1 | ➔ |
| % y bobl a ddihangodd yn ddianaf a heb gymorth o danau damweiniol mewn cartrefi | 84.3% | | | | 84.3% | ↑17pp |
| Tanau mewn cartrefi - larwm mwg wedi gweithredu | 58% | | | | 58% | ↓ 5pp |
| Tanau mewn cartrefi – larwm mwg heb weithredu | 29% | | | | 29% | ↑ 6pp |
| Tanau mewn cartrefi – dim larwm mwg yn bresennol | 13% | | | | 13% | ↓ 5pp |
| % yr holl Archwiliadau Diogelwch Tân yn y cartref a gynhaliwyd ar ôl atgyfeiriad gan sefydliad partner | 40% | | | | 40% | ↑ 13pp |

| **Y LLYNEDD – 2011/12** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **CH1** | **CH2** | **CH3** | **CH4** | **HYHE** |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 112 | | | | 112 |
| Anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi | 8 | | | | 8 |
| Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 1 | | | | 1 |
| % y bobl a ddihangodd yn ddianaf a heb gymorth o danau damweiniol mewn cartrefi | 67.3% | | | | 67.3% |
| Tanau mewn cartrefi - larwm mwg wedi gweithredu | 63% | | | | 63% |
| Tanau mewn cartrefi – larwm mwg heb weithredu | 23% | | | | 23% |
| Tanau mewn cartrefi – dim larwm mwg yn bresennol | 14% | | | | 14% |
| % yr holl Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gynhaliwyd ar ôl atgyfeiriad gan sefydliad partner | 27% | | | | 27% |

## Tanau Damweiniol mewn Cartrefi ac Anafusion yn ôl Difrifoldeb yr Anaf


- ***Bu 13% neu 15 yn llai o danau damweiniol mewn cartrefi o'i gymharu â 2011/12***

Yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn, aeth y Gwasanaeth at 97 o danau damweiniol mewn cartrefi, sydd yn llai na'r flwyddyn flaenorol ac yn llai na'r cyfartaledd dros dair blynedd.

**Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi:** Cafodd saith o bobl anafiadau yn y tanau hyn – roedd 6 wedi eu categoreiddio'n anafiadau bach, ac 1 yn ddifrifol. Mae'r rhain yn eithrio archwiliadau rhagofalus a chymorth cyntaf a roddwyd yn y fan a'r lle, gan gadw at y cyfarwyddyd cenedlaethol ar gyfer llunio dangosyddion perfformiad cenedlaethol.

**Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi:** Bu un farwolaeth mewn tân damweiniol mewn cartref (gan ddisgwyl cadarnhad o achos y farwolaeth gan y Crwner). Digwyddodd hyn mewn tân yn Ynys Môn ym mis Mai 2012.

*Tanau Damweiniol mewn Cartrefi ac Anafusion yn ôl Difrifoldeb yr Anaf*




Ers Ebrill 2009 caiff anafusion anangheuol eu cofnodi dan bedwar categori difrifoldeb:


i) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn ddifrifol;
ii) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn fach;
iii) rhoddwyd cymorth cyntaf yn y fan a'r lle;
iv) argymhellwyd archwiliad rhagofalus – ystyr hyn y bydd unigolyn yn cael ei anfon i'r ysbyty neu'n cael ei gynghori i weld meddyg rhag ofn, ond pryd nad oes unrhyw anaf neu ddioddefaint amlwg.

Oherwydd y newid yn Ebrill 2009, a dyfodiad y nodydd 'anaf yn gysylltiedig â thân', mae'n bosib na fydd parhad yn nifer yr anafusion anangheuol.

**<u>Canran y bobl mewn tanau damweiniol mewn cartrefi a ddihangodd yn ddianaf heb gymorth y gwasanaeth tân ac achub yn y tân.</u>**

- ***fe wnaeth 84% o'r bobl mewn tân damweiniol mewn cartref ddianc yn ddianaf a heb gymorth gan y Gwasanaeth yn y tân.***

*<u>% y bobl mewn tanau damweiniol mewn cartrefi a ddihangodd yn ddianaf heb gymorth y GTA</u>*




Gyda rhybudd cynnar gan larwm mwg sy'n gweithio, a chynllun dianc wedi ei ymarfer ac wedi ei deilwra i anghenion unigol preswylwyr y cartref, gall pobl gael y siawns orau i ddianc yn ddianaf o dân mewn cartref heb orfod dibynnu ar gael eu hachub gan griw tân.


Mae'r 84% a gafwyd yn chwarter cyntaf y flwyddyn hon yn ymwneud â chyfanswm o 198 o bobl, gyda 166 ohonynt wedi gallu gadael y cartref yn ddiogel heb orfod cael eu hachub gan griw tân.

**Tanau mewn Cartrefi: Presenoldeb Larymau Mwg**

- ***13% o'r cartrefi a gafodd dân oedd heb larwm mwg, sydd1 pwynt canran yn well nag yn 2011/12.***

Fe wnaeth cyfanswm nifer y tanau mewn cartrefi ostwng 20% neu 26 o danau yn ystod y chwarter cyntaf, i 102 o danau mewn cartrefi (o 128 yn y flwyddyn flaenorol).

*Tanau mewn Cartrefi: Presenoldeb larymau mwg*




Roedd 13% o'r holl danau mewn cartref yr aethpwyd atynt yn y chwarter cyntaf (13 o danau) wedi digwydd mewn cartrefi lle nad oedd larwm mwg yno. Dyma'r gyfran isaf a gofnodwyd ar gyfer y cyfnod hwn, ac mae'n dangos yn bendant fod cynnydd yn lefelau perchnogaeth larwm mwg.

Yn 58% o'r tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt (59 o danau) roedd larwm yno ac roedd wedi seinio. Mae'r ganran hon o'r cyfanswm yn is na'r llynedd, ond mae'n dal yn uwch na'r cyfartaledd dros dair blynedd.


Yn y trydydd categori – lle roedd larwm yno ond heb seinio – roedd cynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd dros dair blynedd. Y prif reswm pam nad oedd larymau wedi seinio er eu bod yn yr eiddo oedd y ffaith nad oedd y tân yn ddigon agos i'r larwm i beri iddo seinio.

**Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref (ADTC)**

- ***cynhaliwyd 40% o'r archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad partner.***

Yn ystod y chwarter cyntaf, roedd 1,501 (40%) o blith y 3,708 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn rhai a oedd yn deillio o atgyfeiriadau gan sefydliadau partner. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i darged y Gwasanaeth ei hun, sef 25%.

*% yr holl Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gynhaliwyd wedi deillio o atgyfeiriad gan sefydliad partner*



**ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU: Crynodeb o'r holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt**

| BLWYDDYN ADRODD – 2012/13 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.<br>Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid | | | | | | |
| ↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid PC = pwyntiau canrannol | | | | | | |
| | **CH1** | **CH2** | **CH3** | **CH4** | **HYHE** | |
| Cyfanswm y digwyddiadau a fynychwyd | 1,712 | | | | 1,712 | ↓19% |
| Cyfanswm y tanau | 621 | | | | 621 | ↓ 38% |
| Cyfanswm y digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 287 | | | | 287 | ↑ 8% |
| Cyfanswm y galwadau diangen | 804 | | | | 804 | ↓ 6% |


| LLYNEDD – 2011/12 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **CH1** | **CH2** | **CH3** | **CH4** | **HYHE** |
| Cyfanswm y digwyddiadau a fynychwyd | 2,125 | | | | 2,125 |
| Cyfanswm y tanau | 1,001 | | | | 1,001 |
| Cyfanswm y digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 265 | | | | 265 |
| Cyfanswm y galwadau diangen | 859 | | | | 859 |

**Yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt:**

- ***Bu gostyngiad o 19% neu 413 yn llai o ddigwyddiadau o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.***

Yn ystod y chwarter cyntaf, aeth y Gwasanaeth at 1,712 o ddigwyddiadau, sydd gryn dipyn yn is na'r blynyddoedd blaenorol, ac sy'n parhau â'r tueddiad cyffredinol am i lawr. Roedd y gwasanaethau arbennig a'r galwadau diangen yn cyd-fynd â'r blynyddoedd blaenorol, tra'r oedd cyfanswm y tanau 38% yn is neu 380 yn llai o ddigwyddiadau o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

*Yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt, yn ôl math*



## ADRODD AM WEITHGARWCH DIGWYDDIADAU: Y tanau yr aethpwyd atynt

| **BLWYDDYN ADRODD – 2012/13** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl. Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid | | | | | | |
| ↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid PC = pwyntiau canrannol | | | | | | |
| | **CH1** | **CH2** | **CH3** | **CH4** | **HYHE** | |
| Cyfanswm tanau | 621 | | | | 621 | ↓ 38% |
| Prif danau | 259 | | | | 259 | ↓ 23% |
| Tanau eilaidd | 311 | | | | 311 | ↓ 50% |
| Tanau simnai | 51 | | | | 51 | ↑ 28% |
| Yr holl danau bwriadol | 267 | | | | 267 | ↓ 46% |
| Yr holl danau damweiniol | 354 | | | | 354 | ↓ 30% |
| Tanau mewn eiddo annomestig | 42 | | | | 42 | ↓ 26% |

| **Y LLYNEDD – 2011/12** | **CH1** | **CH2** | **CH3** | **CH4** | **HYHE** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y tanau | 1,001 | | | | 1,001 |
| Prif danau | 338 | | | | 338 |
| Tanau eilaidd | 623 | | | | 623 |
| Tanau simnai | 40 | | | | 40 |
| Yr holl danau bwriadol | 495 | | | | 495 |
| Yr holl danau damweiniol | 506 | | | | 506 |
| Tanau mewn eiddo annomestig | 57 | | | | 57 |

**Tanau:**

- ***Bu gostyngiad o 38% neu 380 yn llai o danau o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.***

Yn ystod y chwarter cyntaf, aeth y Gwasanaeth at 621 o danau, sef y nifer isaf yn y cyfnod hwn ers 2008/09 o leiaf. Mae niferoedd cyffredinol y prif danau a'r tanau eilaidd wedi gostwng, ond mae nifer y tanau simnai wedi cynyddu. Yn ogystal â gweithgarwch y Gwasanaeth ym maes atal tanau, mae'n debygol fod y cyfnod hir o dywydd gwlyb wedi cael effaith sylweddol ar danau.


**Tanau: Math**

Aeth nifer y **prif danau** i lawr 23% neu 79 yn llai o ddigwyddiadau o'i gymharu â'r chwarter cyntaf yn 2011/12, gan barhau â'r tueddiad am i lawr.

Yn ystod y chwarter cyntaf, roedd nifer y **tanau eilaidd** hefyd wedi gostwng yn sylweddol, sef 50% neu 311 yn llai o ddigwyddiadau o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2011/12. Mae'r gostyngiad hwn i'w weld mewn perthynas â thanau yn yr awyr agored – tanau glaswelltir yn arbennig – gan adlewyrchu'r tywydd gwlypach na'r cyfartaledd yn ystod Ebrill a Mehefin.

Cynyddodd nifer y **tanau simnai** 28%, er mai cyfateb i ddim ond 11 yn rhagor o danau y mae hyn, gyda'r rhan fwyaf o'r rhain wedi digwydd ym mis oerach Ebrill.


*Yr holl danau yr aethpwyd atynt, yn ôl math*



**Tanau: Cymhelliad**

Mae gostyngiad cyffredinol yn nifer y tanau yn cael ei adlewyrchu yn y ddau gategori, sef tanau a gychwynnir yn fwriadol a'r rhai sy'n cychwyn trwy ddamwain. Mae nifer y tanau bwriadol wedi mynd i lawr i bron hanner y nifer yn yr un cyfnod y llynedd (47% yn llai o danau) a llawer is na'r cyfartaledd dros dair blynedd.

*Yr holl danau yr aethpwyd atynt, yn ôl cymhelliad*




**Tanau:  Safleoedd annomestig:**

- ***Bu gostyngiad o 26% neu 15 yn llai o danau ar safleoedd annomestig o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.***

Yn ystod y chwarter cyntaf, aeth y Gwasanaeth at 42 o danau o'r fath, ac roedd hyn yn is na'r flwyddyn flaenorol a'r cyfartaledd dros dair blynedd, ac mae hyn yn parhau â'r tueddiad am i lawr.

*Tanau ar Safleoedd Annomestig ac Anafusion*



**ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU: Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig (nid tanau) yr aethpwyd atynt**

| **BLWYDDYN ADRODD – 2012/13** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.<br>Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid | | | | | | |
| ↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid PC = pwyntiau canrannol | | | | | | |
| | **CH1** | **CH2** | **CH3** | **CH4** | **HYHE** | |
| Cyfanswm digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 287 | | | | 287 | ↑ 8% |
| Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd | 105 | | | | 105 | ↓ 8% |
| Heblaw gwrthdrawiadau ar y ffyrdd | 182 | | | | 182 | ↑ 21% |

| **LLYNEDD – 2011/12** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **CH1** | **CH2** | **CH3** | **CH4** | **HYHE** |
| Cyfanswm digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 265 | | | | 265 |
| Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd | 114 | | | | 114 |
| Heblaw gwrthdrawiadau ar y ffyrdd | 151 | | | | 151 |


**Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig:**

- ***Bu cynnydd o 8% neu 22 yn fwy o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.***

Yn ystod y chwarter cyntaf, aeth y Gwasanaeth at 287 o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig, ac roedd hyn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol ond yn dal yn is na'r cyfartaledd tair blynedd.

Parhaodd nifer y **gwrthdrawiadau ar y ffyrdd** i ostwng, ond fe gynyddodd nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig **heblaw gwrthdrawiadau ar y ffyrdd** 21% neu 31 yn fwy o ddigwyddiadau. Gellir priodoli'r cynnydd hwn, yn rhannol, i'r tywydd drwg a gafwyd yn ystod y chwarter, gan gynnwys llong yn taro creigiau mewn gwynt cryf yn ystod mis Ebrill, a llifogydd lleol yn ystod misoedd gwlypach na'r cyfartaledd Ebrill a Mehefin.

*Gwasanaethau Arbennig yr aethpwyd atynt, yn ôl math*



## ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU: Mynd at alwadau diangen

**BLWYDDYN ADRODD – 2012/13**

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid

↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid PC = pwyntiau canrannol

| | CH1 | CH2 | CH3 | CH4 | HYHE | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y galwadau diangen | 804 | | | | 804 | ↓ 6% |
| Galwadau diangen maleisus | 27 | | | | 27 | ↓ 27% |
| Galwadau diangen didwyll | 313 | | | | 313 | ↓10% |
| Galwadau diangen oherwydd system awtomatig mewn eiddo annomestig | 306 | | | | 306 | ↓ 6% |
| Galwadau diangen oherwydd system awtomatig mewn eiddo arall | 158 | | | | 158 | ↑ 6% |

**Y LLYNEDD - 2011/12**

| | CH1 | CH2 | CH3 | CH4 | HYHE |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y galwadau diangen | 859 | | | | 859 |
| Galwadau diangen maleisus | 37 | | | | 37 |
| Galwadau diangen didwyll | 349 | | | | 349 |
| Galwadau diangen oherwydd system awtomatig mewn eiddo annomestig | 324 | | | | 324 |
| Galwadau diangen oherwydd system awtomatig mewn eiddo arall | 149 | | | | 149 |


**Galwadau diangen:**

- ***Bu cynnydd o 6% neu 55 yn llai o alwadau diangen yr aethpwyd atynt o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.***

Yn ystod y chwarter cyntaf aeth y Gwasanaeth allan at 804 o alwadau am gymorth a drodd i fod yn alwadau diangen. Mae'r nifer hwn yn is na'r blynyddoedd blaenorol.

Mae niferoedd cyffredinol y galwadau diangen yn y 3 phrif gategori: sef galwadau diangen oherwydd systemau awtomatig; galwadau diangen maleisus; a galwadau diangen a wneir yn ddidwyll, i gyd wedi gostwng.

*Galwadau diangen yr aethpwyd atynt, yn ôl math*




Oherwydd i'r categorïau galwadau diangen gael eu hail-gysoni cyn cychwyn blwyddyn ariannol 2011/12 o ganlyniad i drafodaethau ar lefel genedlaethol, cafwyd newid yng nghyfran y galwadau diangen a gategoreiddwyd fel 'galwadau diangen systemau awtomatig' a'r rhai a gategoreiddwyd fel 'galwadau diangen a wnaed yn ddidwyll'.

Felly, roedd yn amhosibl cymharu tebyg wrth debyg rhwng ffigurau 2011/12 a ffigurau'r flwyddyn flaenorol mewn perthynas â'r ddau gategori hwn o alwadau diangen. Nid oes disgwyl i hyn effeithio ar y gymhariaeth rhwng ffigurau 2011/12 a ffigurau 2012/13.

## GEIRFA

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân i'w osod yn o'r tri chategori canlynol – prif, eilaidd neu simnai. |
| Prif danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simneiau, ac sydd yn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli, ayyb.<br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn rhai simnai na phrif danau.<br>Nid yw tanau eilaidd yn golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br>Fel arfer, tanau eilaidd yw'r rhai sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif dân), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb |
| Tanau simnai | Dyma danau mewn adeiladau wedi eu meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br>Nid yw tanau simnai'n golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br>d) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau. |
| Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol) | Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau diangen – Maleisus | Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau diangen – Didwyll | Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau diangen – systemau awtomatig | Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fod larwm yn canu a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad). |

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

**BLWYDDYN GYFAN**

**EBRILL 2011 – MAWRTH 2012**

**Ffigyrau am y tro ydynt, ac fe allent fod yn agored i fân newidiadau**

# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| | **TANAU** | **2-6** |
| OPSW_6.1 | Cyfanswm y galwadau | |
| RRC/S/001 | Yr holl danau – prif, eilaidd a simnai | |
| | Tanau damweiniol mewn cartrefi | |
| | Yr holl danau – bwriadol a damweiniol | |
| RRC/S/003 | Tanau mewn eiddo annomestig | |
| | | |
| | **AROS YN DDIOGEL** | **7-9** |
| | Tanau damweiniol mewn cartrefi a gyfyngwyd i'r ystafell lle cychwynnodd | |
| | Anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi | |
| | Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | |
| RRC/C/005 | Presenoldeb/absenoldeb larwm mwg mewn cartrefi ble bu tanau | |
| | | |
| | **GALWADAU AM WASANAETHAU ARBENNIG** | **10** |
| | Galwadau brys am wasanaethau arbennig | |
| | | |
| | **GALWADAU DIANGEN** | **11-12** |
| RRC/C/002 | Galwadau diangen maleisus | |
| RRC/C/003 | Galwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig | |
| | Galwadau diangen didwyll | |
| | | |
| | **ERAILL** | **13** |
| | Diffinio'r tanau | |

## TANAU – RHESTR GYFEIRIO GRYNO

**ELENI– 2011/12**

[HYHE = Hyd yn hyn eleni]

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid

🡅 = cynnydd eleni 🡇 = gostyngiad eleni 🡆 = dim newid

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE | HYHE |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y galwadau* | 4,547 | 4,374 | 4,045 | 4,224 | 17,190 | 🡇 2% |
| Yr holl danau | 1,001 | 708 | 675 | 781 | 3,165 | 🡇 4% |
| Prif danau | 338 | 302 | 343 | 316 | 1,299 | 🡇 3% |
| Tanau eilaidd | 623 | 392 | 253 | 345 | 1,613 | 🡇 1% |
| Tanau simnai | 40 | 14 | 79 | 120 | 253 | 🡇 21% |
| Yr holl danau bwriadol | 495 | 358 | 233 | 284 | 1,370 | 🡇 5% |
| Yr holl danau damweiniol | 506 | 350 | 442 | 497 | 1,795 | 🡇 3% |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 112 | 84 | 146 | 132 | 474* | 🡅 1% |
| Tanau mewn eiddo annomestig | 57 | 53 | 53 | 52 | 215 | 🡇 6 % |

**Y LLYNEDD – 2010/11**

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y galwadau* | 5,083 | 4,210 | 4,469 | 3,849 | 17,611 |
| Yr holl danau | 1,207 | 636 | 693 | 753 | 3,289 |
| Prif danau | 357 | 301 | 374 | 314 | 1,346 |
| Tanau eilaidd | 790 | 318 | 208 | 307 | 1,623 |
| Tanau simnai | 60 | 17 | 111 | 132 | 320 |
| Yr holl danau bwriadol | 599 | 312 | 247 | 277 | 1,435 |
| Yr holl danau damweiniol | 608 | 324 | 446 | 476 | 1,854 |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 122 | 91 | 145 | 111 | 469 |
| Tanau mewn eiddo annomestig | 58 | 57 | 55 | 59 | 229 |

* Cyfanswm y galwadau = Cyfanswm y galwadau a drafodwyd gan yr Ystafell Reoli, yn uniongyrchol gysylltiedig gyda digwyddiadau brys ee digwyddiadau dilys, galwadau niferus, galwadau diangen, galwadau ffug (efallai nad oedd angen i adnodd o'r Gwasanaeth fynychu pob galwad).


* Diwygiwyd o 473 yn Awst 2012.

## Cyfanswm y Galwadau 2011/12

- ***Roedd gostyngiad o 2% neu 421 yn llai o alwadau o gymharu â 2010/11***
- ***Roedd gostyngiad o 8% neu 666 yn llai o ddigwyddiadau a oedd angen i'r Gwasanaeth fynychu***


Yn ystod 2011/12 gwnaeth yr Ystafell Reoli ymdrin â 17,190 o alwadau, a bu'n rhaid i'r Gwasanaeth fynd at 7,721 o ddigwyddiadau - 666 yn llai na'r cyfanswm yn ystod llynedd a 804 yn llai na'r cyfartaledd 3 blynedd.

**Cyfanswm Galwadau, a Lleoliadau'r Digwyddiadau a Fynychwyd**
*(OPSW_6.1)*




Yn Wrecsam bu'r nifer uchaf o alwadau a oedd gofyn i'r Gwasanaeth eu mynychu (9%) gyda'r nifer lleiaf yn Ne Gwynedd (2%). O'r holl alwadau a dderbyniwyd nid oedd angen i'r Gwasanaeth fynychu 55% ohonynt er enghraifft digwyddiadau nad oeddent yn ddilys, galwadau niferus, ddim yn ddigwyddiadau dilys, galwadau diangen wedi eu cadarnhau, neu alwadau ffug wedi eu cadarnhau.

**Galwadau a fynychwyd, yn ôl math** (diwedd blwyddyn)




## Cyfanswm y Tanau

- ***Roedd gostyngiad o 4% neu 124 yn llai o danau o gymharu â 2010/11***

Yn ystod 2011/12 gwnaeth y Gwasanaeth fynychu 3,165 o danau, sydd yn is na llynedd ac yn is na'r cyfartaledd 3-blynedd.

Yn gyffredinol, mae nifer y prif danau, tanau eilaidd a simnai wedi gostwng.

**Tanau a fynychwyd** (diwedd blwyddyn)




## Prif Danau

- ***Roedd gostyngiad o 3% neu 47 yn llai o brif danau o gymharu â 2010/11***

Yn ystod 2011/12 gwnaeth y Gwasanaeth ymdrin â 1,299 o brif danau, sy'n well na llynedd ac yn well na'r cyfartaledd 3-blynedd. Mae hyn yn parhau'r tuedd am i lawr yn nifer y prif danau a fynychir.

## Tanau Eilaidd

- ***Roedd gostyngiad o 1% neu 10 yn llai o danau eilaidd o gymharu â 2010/11***

Yn ystod 2011/12 gwnaeth y Gwasanaeth ymdrin â 1,613 o danau eilaidd, er fod hyn yn llai na llynedd mae'n parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd.

## Tanau Simnai

- ***Roedd gostyngiad o 21% neu 67 yn llai o danau simnai o gymharu â 2010/11***


Yn ystod 2011/12 gwnaeth y Gwasanaeth ymdrin â 253 o danau simnai, sydd 67 yn llai o gymharu â llynedd. Mae hefyd yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd.

## Tanau yn ôl cymhelliad

Bu gostyngiad yn nifer y tanau damweiniol a bwriadol o gymharu â 2010/11, sy'n adlewyrchu'r gostyngiad cyffredinol yn nifer y tanau.

Yn ystod 2011/12 gwnaeth y Gwasanaeth ymdrin â 1,795 o danau a gychwynnodd yn ddamweiniol a 1,370 o danau a gychwynnwyd yn fwriadol.

**Tanau a fynychwyd, yn ôl cymhelliad** *(diwedd blwyddyn)*





## Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

- ***Roedd cynnydd o 1% neu 5 yn fwy o danau damweiniol mewn cartrefi o gymharu â 2010/11***

Yn ystod 2011/12 gwnaeth y Gwasanaeth fynychu 474* o danau damweiniol mewn cartrefi, sy'n uwch na'r un cyfnod llynedd ond yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd.

**Tanau mewn cartrefi** *(diwedd blwyddyn)*





* wedi ei ddiwygio yn Awst 2012

## Tanau mewn Eiddo Annomestig

- ***Roedd gostyngiad o 6% neu 14  yn llai o danau mewn eiddo annomestig o gymharu â 2010/11***

Yn ystod y cyfnod gwnaeth y Gwasanaeth fynychu 215 o danau mewn eiddo annomestig, sy'n is nag yn y blynyddoedd blaenorol.
Bu gostyngiad o 9% yn nifer y tanau damweiniol tra bo nifer y tanau bwriadol wedi cynyddu wrth 4%.



**AROS YN DDIOGEL – RHESTR GYFEIRIO GRYNO**

| **BLWYDDYN ADRODD – 2011/12** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| HYHE - hyd yn hyn eleni | | | | | | |
| Dangosir cymhariaeth â ffigyrau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.<br>Lliw cefndir – **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid (pc=pwynt canrannol) | | | | | | |
| ↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid | | | | | | |
| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE | |
| Anafiadau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi | 8 | 3 | 10 | 13 | 34 | ↓ 36% |
| Marwolaethau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi | 1 | 0 | 2 | 3 | 6 | ↓ 40% |
| Tanau mewn cartrefi - larwm mwg wedi canu | 63% | 60% | 61% | 59% | 61% | ➡ 0pc |
| Tanau mewn cartrefi – larwm mwg heb ganu | 23% | 24% | 27% | 23% | 24% | ↑ 2pc |
| Tanau mewn cartrefi – dim larwm mwg yno | 14% | 16% | 12% | 18% | 15% | ↓ 1pc |


| **LLYNEDD – 2010/11** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE |
| Anafiadau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi | 9 | 16 | 10 | 18 | 53 |
| Marwolaethau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi | 5 | 0 | 2 | 3 | 10 |
| Tanau mewn cartrefi - larwm mwg yno | 64% | 67% | 56% | 62% | 61% |
| Tanau mewn cartrefi – larwm mwg heb ganu | 19% | 21% | 26% | 20% | 22% |
| Tanau mewn cartrefi – dim larwm mwg yno | 17% | 12% | 18% | 18% | 16% |

## Anafiadau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

- ***Roedd gostyngiad o 36% neu 19 o anafiadau yn llai o gymharu â 2010/11***

Yn ystod y flwyddyn cafodd 34 o bobl anafiadau (angen triniaeth ysbyty), sydd 19 yn llai na llynedd, ac yn llai na'r cyfartaledd 3 blynedd.

**Tanau damweiniol mewn cartrefi ac anafiadau** *(diwedd blwyddyn)*




## Marwolaethau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

- ***Bu 6* marwolaeth oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi (disgwyl cadarnhad)***

Yn 2011/12 bu 6 marwolaeth o ganlyniad i 5 o danau damweiniol mewn cartrefi.

| | |
|---|---|
| Ebrill 2011 | Llandudno, Conwy |
| Tachwedd 2011 | Babell, Sir y Fflint |
| Ionawr 2012 | Llandudno, Conwy |
| Chwefror 2012 | Llangollen, Sir Ddinbych |
| Chwefror 2012 | Llandudno, Conwy |

Bu i ddau farw yn y tân ym Mabell.

Ni fu marwolaethau oherwydd tanau bwriadol mewn cartrefi.


* ffigwr amodol – aros cadarnhad gan y Crwner

**Tanau mewn Cartrefi – Presenoldeb Larymau Mwg**

- ***Roedd gan 61% o'r cartrefi ble bu tân larwm mwg wnaeth seinio, sydd yr un fath ag yn 2010/11***

Bu gostyngiad o 1% (5 yn llai) yng nghyfanswm y tanau mewn cartrefi yn ystod 2011/12. 530 eleni o gymharu â 535 llynedd.

**Tanau mewn Cartrefi : Presenoldeb larymau mwg**
*(Diwedd blwyddyn)*




Yn 2011/12, yn ogystal â llynedd, roedd gan 61% (321 a 329) larwm mwg wnaeth seinio.

Yn y ddwy flynedd, doedd gan y cyfran lleiaf o gartrefi ble bu tân ddim larwm wedi'i osod, yn 2011/12 roedd hyn yn 15% (79) o gymharu â 16% (88) y flwyddyn cynt.

Yn y trydydd categori - larwm wedi'i osod ond heb seinio - roedd cynnydd bychan yn 2011/12 i 24% (129 o danau) o gymharu â 22% (118 o danau) y flwyddyn cynt.

Y prif reswm fod y larwm heb seinio er bod un wedi'i osod yn yr eiddo yw nad oedd y tân ddigon agos at y larwm.

| **RHESWM PAM FOD Y LARWM MWG HEB SEINIO** | **Cyfanswm** |
|---|---|
| Y tân ddim digon agos at y larwm mwg | 65 |
| Tân mewn ardal rhy bell o'r system | 13 |
| Dim batri yn y larwm | 12 |
| Nam ar y system | 11 |
| Arall | 10 |
| Cafwyd rhybudd mewn modd arall | 8 |
| Batri y larwm yn ddiffygiol | 6 |
| System wedi'i droi ffwrdd | 2 |
| Dim larwm yn bresennol | 1 |
| System wedi'i niweidio gan dân | 1 |
| **Cyfanswm** | **129** |

## GALWADAU AM WASANAETH ARBENNIG *(dim tân)* – RHESTR GYFEIRIO GRYNO

| BLWYDDYN ADRODD – 2011/12 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| HYHE - hyd yn hyn eleni | | | | | | |
| Dangosir cymhariaeth â ffigyrau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.<br>Lliw cefndir – **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid | | | | | | |
| ↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni | | | | | | |
| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE | |
| Yr holl alwadau brys am wasanaethau arbennig | 265 | 261 | 261 | 203 | 990 | ↓ 27% |
| Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd (dim tân) | 114 | 120 | 131 | 96 | 461 | ↓ 25% |


| LLYNEDD – 2010/11 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE |
| Yr holl alwadau brys am wasanaethau arbennig | 293 | 373 | 425 | 264 | 1,355 |
| Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd (dim tân) | 137 | 165 | 199 | 116 | 617 |

**<u>Galwadau Brys am Wasanaethau Arbennig (dim tân)</u>**

- ***Roedd gostyngiad o 27% neu 365 yn llai o ddigwyddiadau gwasanaethau arbennig o gymharu â 2010/11***

Yn ystod y cyfnod gwnaeth y Gwasanaeth fynychu 990 o alwadau am wasanaethau arbennig, sydd dipyn yn is na llynedd a'r cyfartaledd 3 blynedd; mae nifer y digwyddiadau wedi gostwng ar gyfran gynyddol blwyddyn ar flwyddyn.

**<u>Digwyddiadau Gwasanaethau Arbennig</u>** *(diwedd blwyddyn)*



## GALWADAU DIANGEN – RHESTR GYFEIRIO GRYNO

| **BLWYDDYN ADRODD – 2011/12** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **TA = Larymau Tân Awtomatig** | | | **HYHE - hyd yn hyn eleni** | | | |
| Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.<br>Lliw cefndir – **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Melyn** = dim newid | | | | | | |
| ↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni | | | | | | |
| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE | |
| Cyfanswm galwadau diangen aethpwyd atynt | 859 | 958 | 862 | 887 | 3,566 | ↓ 5% |
| Galwadau diangen maleisus yr aethpwyd atynt | 37 | 34 | 25 | 37 | 133 | ↑ 13% |
| Galwadau diangen oherwydd LTA mewn eiddo annomestig | 324 | 392 | 389 | 306 | 1,411 | ↑ 7% |
| Galwadau diangen didwyll aethpwyd atynt | 349 | 362 | 285 | 405 | 1,401 | ↓ 17% |

| **LLYNEDD – 2010/11** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | HYHE |
| Cyfanswm galwadau diangen aethpwyd atynt | 910 | 1,027 | 1,011 | 795 | 3,743 |
| Galwadau diangen maleisus yr aethpwyd atynt | 31 | 26 | 39 | 22 | 118 |
| Galwadau diangen oherwydd LTA mewn eiddo annomestig | 289 | 357 | 388 | 283 | 1,317 |
| Galwadau diangen didwyll aethpwyd atynt | 429 | 466 | 430 | 364 | 1,689 |

## Galwadau Diangen (yn gyffredinol)


- ***Roedd gostyngiad o 5%  neu 177 yn llai o alwadau diangen o gymharu â 2010/11***

Yn ystod 2011/12, gwnaeth y Gwasanaeth fynychu 3,566 o alwadau am gymorth, ond a drodd allan i fod yn alwadau diangen.  Mae'r cyfanswm hwn yn llai nag yn y ddwy flynedd flaenorol.

Yn dilyn ail-ddosbarthu nifer o ddigwyddiadau o ganlyniad i drafodaethau cenedlaethol yn 2010/11, bu newid yn y cyfran o alwadau diangen a gofnodwyd fel 'galwadau diangen oherwydd offer awtoganfod tân' a'r rhai a gofnodwyd fel 'galwadau diangen didwyll'.

Roedd hyn yn ei gwneud yn amhosib i gymharu tebyg am debyg rhwng ffigyrau 2011/12 a ffigyrau 2010/11 yn y ddau gategori hwn o alwadau diangen.

Felly, wrth ddiystyru ffigyrau 2010/11, a chymharu ffigyrau 2011/12 gyda blynyddoedd blaenorol, mae'r llun sylfaenol yn awgrymu gostyngiad flwyddyn ar flwyddyn yn y nifer o alwadau diangen oherwydd offer awtoganfod tân mewn eiddo annomestig a fynychir, a cynnydd blwyddyn ar flwyddyn yn y nifer o alwadau diangen didwyll a fynychir.




**cyfartaledd 2 flynedd ar gael ar gyfer galwadau diangen - LTA (ARALL)*

**DIFFINIAD O'R TANAU**

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân i'w osod yn o'r tri chategori canlynol – prif, eilaidd neu simnai. |
| Prif | Dyma danau nad ydynt yn danau simneiau, ac sydd yn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafannau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli, ayyb.<br><br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn rhai simnai na phrif danau.<br><br>Nid yw tanau eilaidd yn golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br><br>Fel arfer, tanau eilaidd yw'r rhai sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif dân), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb |
| Simnai | Dyma danau mewn adeiladau wedi eu meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br><br>Nid yw tanau simnai'n golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |